# Ailgylchu a Rheoli Gwastraff – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4259A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

## Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn

- Mae cyfradd ailgylchu'r Cyngor wedi bod yn gyson ar y blaen i'r targed cenedlaethol presennol ac mae'n agos at gyflawni'r targed anoddach yn y dyfodol. Nod ein harchwiliad yw helpu'r Cyngor i ddeall pa ffactorau sy'n egluro ei lwyddiant a pha rwystrau posibl a allai atal perfformiad rhag gwella yn y dyfodol.
- Mae newidiadau diweddar mewn rheoliadau ailgylchu annomestig yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus wahanu gwastraff. Mae hyn yn gyfle posibl i'r Cyngor ystyried ehangu gwasanaethau gwastraff masnachol presennol.
- Fel gwasanaeth sy'n perfformio'n dda, gall ein hadolygiad nodi arferion da a dysgu da ar gyfer gwasanaethau eraill.
- Er mwyn cefnogi dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 17(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ffeithiau allweddol

Rydym wedi nodi'r ffeithiau allweddol canlynol sy'n rhoi cyd-destun a mewnwelediad i berfformiad a chyllid gwasanaeth gwastraff y Cyngor. Maent yn dangos yr amgylchedd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddo a rhai o'r heriau a wynebir. Mae graffiau ychwanegol sy'n rhoi cyd-destun ehangach y ffeithiau hyn wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**.

### Gwariant

Gwariant yw'r sbardun allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau, sy'n gyrru allbynnau perfformiad.

- Yn 2022-23, gwariodd y Cyngor £85.64 fesul preswylydd ar wastraff[1]. Mae hyn 18% yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru yn gyffredinol, a wariodd £15.55 yn fwy fesul preswylydd.
- Yn yr un flwyddyn, y cyfanswm a wariwyd ar wastraff oedd £9.8 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli 3.1% o gyfanswm gwariant y Cyngor, sydd 0.6% yn llai na'r gyfran ar gyfer Cymru yn gyffredinol (3.7%).

### Incwm a chynilion[2]

Er mwyn helpu i liniaru'r pwysau cyllidebol ar ddarparu gwasanaethau, gall y Cyngor geisio cael incwm ychwanegol o wasanaethau dewisol neu wneud arbedion effeithlonrwydd ychwanegol. Mae'r ddau angen cydbwysedd o risgiau a buddion ychwanegol.

- Yn 2022-23, gwnaeth y Cyngor warged o £0.24 miliwn ar gontractau gwastraff masnachol. Roedd hyn yn cynrychioli 1.3% o'r gwariant net.
- Yn 2024-25, mae'r Cyngor angen £0.13 miliwn o arbedion o'i wasanaeth gwastraff.

### Fflyd[2]

Mae cerbydau'n hanfodol i ddarpariaeth a chydnerthedd gwasanaethau, gan eu gwneud yn gost allweddol i'r gwasanaeth.

[1] Dadansoddiad Archwilio Cymru o StatsCymru, gwariant alldro refeniw, yn ôl awdurdod a gwasanaeth

[2] Data CBS Conwy

- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £2.6 miliwn ar gerbydau newydd yn 2023-24. Bydd naw o'r cerbydau hyn yn rhai trydan. I ariannu hyn, defnyddiodd y Cyngor £1.6 miliwn o grant Llywodraeth Cymru.
- Polisi'r Cyngor ar gyfer oes cerbydau yw eu disodli ar ôl saith mlynedd. Mae 42% o'r fflyd bresennol yn uwch na'r trothwy hwn ar hyn o bryd, yn enwedig sbwriel cyffredinol lle mae 67% o gerbydau dros y trothwy disodli.
- Roedd cost atgyweirio a rhoi gwasanaeth i'r fflyd yn £0.5 miliwn yn 2022-23. Roedd hyn yn cynrychioli 45% o gyfanswm costau fflyd y gwasanaeth.
- Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif arbedion blynyddol o £0.18 miliwn mewn costau tanwydd trwy ddefnyddio cerbydau trydan. Byddai hyn yn cynrychioli gostyngiad o 27% o'i gymharu â 2022-23.

**Tipio anghyfreithlon**

Tipio anghyfreithlon yw'r effaith fwyaf gweledol o beidio â chydymffurfio â pholisi gwastraff, a all greu effeithiau amgylcheddol ac ariannol i'r Cyngor.

- Yn 2022-23, cymerodd y Cyngor gamau gorfodi 389 o weithiau mewn cysylltiad â thipio anghyfreithlon[3]. Mae hyn yn cynrychioli 1.4% o'r camau gorfodi a gymerwyd yng Nghymru.
- Roedd 99% o'r camau gorfodi a gymerwyd gan y Cyngor yn ymchwiliadau (385). Roedd hyn 8% yn uwch na'r gyfran genedlaethol, gyda lefelau uwch o gamau eraill yn cael eu defnyddio mewn meysydd eraill.
- Yn yr un flwyddyn, cofnododd Conwy 1,601 o achosion o dipio anghyfreithlon, a oedd yn cynrychioli 4% o gyfanswm Cymru[4].

## Sut mae da yn edrych[5]

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau hirdymor ar gyfer ailgylchu gwastraff. Mae'r rhain yn 64% erbyn 2019-20 a 70% erbyn 2024-25. Byddem yn disgwyl i'r Cyngor gael strategaeth realistig ac wedi'i hariannu i gyflawni targedau statudol a chyfrannu at amcanion corfforaethol ehangach, megis amcanion llesiant.

Byddem yn disgwyl i'r Cyngor fod â threfniadau ar waith i adolygu ac ymateb i berfformiad ac ymateb i risg i lywio'r gwaith cynllunio gwasanaethau ac adnoddau.

## Yr hyn a wnaethom

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol - **A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu a bod ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?**

I wneud hyn, roeddem yn ceisio ateb y chwe is-gwestiwn a chymhwyso ein meini prawf archwilio, fel y nodir yn **Atodiad 2**.

Roedd ein cwmpas yn cynnwys trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwerth am arian a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn ailgylchu domestig ac annomestig fel ei gilydd. Roedd ein hadolygiad yn ymdrin â'r cyfnod ers i dargedau statudol fod yn berthnasol (2012-13). Ni wnaethom adolygu'r achos dros amlder neu ddull casglu gwastraff, na phrosesu gwastraff a gasglwyd.

[3] StatsCymru, Nifer y camau gorfodi a gymerwyd o ran tipio anghyfreithlon yn ôl eu math

[4] StatsCymru. Achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yn ôl awdurdod lleol

[5] Wedi'i ddiffinio fel 'yr hyn a ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn unol ag arfer gorau, neu 'yr hyn a allai fod' o gael amodau gwell.

Gwnaethom ddadansoddi data cyhoeddus a data'r Cyngor, adolygu dogfennau, a chynnal cyfweliadau â swyddogion a'r Aelod Cabinet dros y Gymdogaeth a'r Amgylchedd. Mae'r holl ddata ariannol gan StatsCymru a'r Cyngor yn cael ei adrodd mewn termau arian parod.

## Yr hyn a ganfuom

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth gwastraff effeithiol ac effeithlon sy'n cyrraedd targedau statudol ar hyn o bryd, sy'n edrych fel pe bai mewn sefyllfa dda i gyflawni targedau statudol uwch. Er mwyn helpu i gyrraedd targedau statudol uwch yn y dyfodol dylai'r Cyngor geisio cryfhau trefniadau i fynd i'r afael â meysydd risg a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gliriach.

Y Cyngor:

- mae wedi darparu gwasanaeth sydd wedi cyrraedd targedau statudol (**Arddangosyn 1**), gan wario llai na'r gyfradd genedlaethol fesul preswylydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (**Arddangosyn 2**). Byddai hyn yn awgrymu bod trefniadau wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni, a hefyd wrth ystyried y gost i'r Cyngor. Efallai y bydd yn rhaid ailystyried hyn gan fod targedau statudol yn dod yn fwy heriol i'w cyflawni.
- mae'n gwneud defnydd da o'r data a'r adnoddau meincnodi sydd ar gael iddo. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon mewn trafodaeth rhwng swyddogion i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'i berfformiad presennol a dod o hyd i feysydd i'w gwella.
- mae'n datblygu Strategaeth Wastraff a fydd yn dogfennu gweledigaeth lefel uchel ar gyfer ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn ffurfiol yn seiliedig ar berfformiad ac ysgogwyr presennol. Bydd hyn yn defnyddio'r wybodaeth a'r weledigaeth a fynegwyd eisoes gan swyddogion.
- mae ganddo gymysgedd gref o bartneriaid sy'n dod ag ystod o sgiliau a safbwyntiau i gefnogi a gwella'r gwasanaeth mewn ffordd effeithiol. Mae'n defnyddio partneriaethau'r trydydd sector i gyflawni eu nodau cyffredin yn y modd gorau a thrwy wneud hynny darparu budd i'r gymuned ehangach.
- mae wedi derbyn lefelau uchel o gyfranogiad wrth gyfathrebu â phreswylwyr, sy'n dangos y gwerth a roddir ar y gwasanaeth gan breswylwyr. Er enghraifft, ymatebodd dros 11,000 o breswylwyr i ymgynghoriad ar amlder casglu, drwy ddosbarthu a chasglu ymatebion drwy gasgliadau gwastraff.
- mae wedi cyflawni gwarged ariannol ar gontractau gwastraff masnachol a ddarperir yn ogystal â chasgliadau statudol domestig. Gallai hwn gael ei ddefnyddio i leihau arbedion sydd eu hangen neu gellid ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth gwastraff masnachol i gynyddu refeniw ymhellach.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn:

- mae diffyg strategaeth wastraff i osod gweledigaeth strategol ar gyfer y gwasanaeth. Er nad yw hyn wedi effeithio ar gyflawni targedau statudol hyd yn hyn, mae hyn yn peri risgiau ychwanegol pan gyflwynir targedau uwch. Mae'r Cyngor eisoes wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r risg hon.
- nid yw wedi defnyddio data a gwybodaeth a dderbyniwyd mewn ffordd strwythuredig neu systematig a allai gyfyngu ar y potensial ar gyfer olrhain ac adolygu camau gweithredu i ysgogi newid yn y gwasanaeth. Ni chofnodwyd camau a oedd yn codi o adolygiadau data, a fyddai'n arwain at risg i gydnerthedd pe bai swyddogion yn gadael dros dro, er enghraifft oherwydd salwch, neu adael yn gyfan gwbl.
- mae wedi profi cynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon sydd wedi tyfu i lefel uwch na'r gyfradd genedlaethol. Ers 2012-13, mae achosion o dipio anghyfreithlon wedi tyfu 71.2% yng Nghonwy (**Arddangosyn 4**), sydd ymhell ar y blaen i'r cynnydd o 14.3% yn genedlaethol. Mewn ymateb, nid yw'r Cyngor wedi ymateb yn rheolaidd gyda chamau

gorfodi. Wrth gymharu achosion a adroddwyd ag ymatebion gorfodi, efallai[6] mai dim ond mewn 24% o achosion y cymerodd y Cyngor gamau gorfodi yn 2022-23. Gall gorfodaeth amrywio'n fawr o agor ymchwiliad i gamau cyfreithiol.

- nid yw wedi dysgu gwersi o'i berfformiad i'w defnyddio mewn mannau eraill o bosibl. Er enghraifft, nododd y gwasanaeth ymgyrch cyfranogi effeithiol a gynhaliwyd yn 2015 ond ni ailadroddwyd hwn gan y gwasanaeth gwastraff na'r Cyngor ehangach. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau ymateb is gan breswylwyr ers hynny er eu bod eisoes wedi datblygu dull gweithredu llwyddiannus.
- nid yw wedi cynllunio yn y tymor hwy i ddisodli asedau sy'n heneiddio. Mae hyn yn dangos nad yw'r Cyngor wedi dyrannu adnoddau cyfalaf mewn ffordd gynlluniedig dros oes ddefnyddiol asedau, gan amlygu'r cyngor o bosibl i risgiau sylweddol, yn enwedig o ran cydnerthedd a chost. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwario cyfran sylweddol a chynyddol o wariant fflyd ar wasanaeth ac atgyweirio ei gerbydau gwastraff presennol (**Arddangosyn 3)**. Gan dybio bod cerbydau mwy newydd yn debygol o fod angen llai o waith atgyweirio, gallai'r Cyngor ddod o hyd i arbedion sylweddol wrth leihau'r costau hyn, yn enwedig pan fo cerbydau'n cael eu hariannu gan grantiau Llywodraeth Cymru yn hytrach na benthyciadau. O gyfuno hyn â chostau tanwydd cymharol rhwng cerbydau trydan a diesel, mae arbedion pellach yn debygol o fod yn sylweddol.
- yn gyffredinol mae wedi colli goruchwyliaeth a her gan aelodau etholedig wrth adolygu perfformiad neu lywio penderfyniadau strategol. Er enghraifft, gwnaed y penderfyniad i beidio ag ehangu casgliadau gwastraff masnachol mewn ymateb i'r newid i'r rheoliad gwastraff annomestig gan y gwasanaeth, yn hytrach na thrwy'r broses ddemocrataidd. Er bod swyddogion wedi mynegi'n glir resymau dilys dros beidio â bwrw ymlaen â'r gwasanaeth hwn, roedd hwn yn gyfle posibl i drawsnewid mewn ymateb i'r newid i'r rheoliad. Fodd bynnag, fel penderfyniad strategol a allai fod yn sylweddol, nid oedd yn destun gwaith craffu cadarn ar benderfyniadau a her y dylai'r broses ddemocrataidd eu darparu. Gall hyn gyfyngu ar ddylanwad a dealltwriaeth aelodau o wasanaeth a nodwyd fel blaenoriaeth allweddol gan breswylwyr.

## Yr hyn a argymhellwyd gennym

**A1** - Er mwyn galluogi a chefnogi gweithredu ac adolygu gwelliannau, dylai'r Cyngor ddogfennu'n ffurfiol ei adolygiad o berfformiad gwasanaethau, data ariannol a data arall. Dylai hyn gynnwys:

- **A1.1** - Dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, a Bygythiadau neu ddadansoddiad cyfatebol o sefyllfa strategol.
- **A1.2** – Dadansoddiad o'r pum ffordd o weithio i gefnogi'r gwasanaeth i weithredu'n glir ac ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylid ceisio dysgu gwersi ynghylch cynnwys dinasyddion ar gyfer y gwasanaeth a'r Cyngor ehangach.
- **A1.3** - Ystyried amcanion tymor hwy i osod gweledigaeth y tu hwnt i'r Strategaeth Wastraff ddrafft.

**A2** - Dylai'r Cyngor gwblhau dadansoddiad o achosion tipio anghyfreithlon i gefnogi gwelliant mewn cyfraddau a llywio cynllun gweithredu i wneud gorfodi yn offeryn realistig. Dylai hyn gynnwys asesiad o werth am arian gweithgaredd atal o'i gymharu â chost tipio anghyfreithlon.


**A3** - Er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau strategol a gwybodaeth ehangach, dylai'r Cyngor adolygu cyfleoedd i adrodd am berfformiad a chyfleoedd, fel contractau masnachol, wrth aelodau etholedig.

[6] Oherwydd cyfyngiadau yn y modd yr adroddir ar y data hwn yn genedlaethol, gellid cofnodi digwyddiad o dipio anghyfreithlon fel dau gam gorfodi. Er enghraifft, gallai ymchwiliad wedyn arwain at hysbysiad cosb benodedig, ac felly byddai'r digwyddiad yn cael ei gofnodi fel un dau gam.

**A4** - Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer cyllido a disodli cerbydau, peiriannau ac offer dros oes ddefnyddiol asedau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gydnerth a manteisio ar arbedion posibl mewn costau rhedeg.


## Atodiad 1 – data ychwanegol

**Arddangosyn 1: Ailgylchu, paratoi ar gyfer ailddefnyddio a thargedau statudol compostio o'u cymharu â pherfformiad gwirioneddol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r gyfradd genedlaethol, 2012-13 i 2024-25**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o StatsCymru a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**Arddangosyn 2: Gwariant refeniw net ar wastraff fesul preswylydd gan CBS Conwy ac yn genedlaethol, 2008-09 i 2022-23**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o StatsCymru


**Arddangosyn 3: Costau fflyd gwastraff yn ôl math yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2018-19 i 2023-24**




Sylwer: Costau hyd at a gan gynnwys Chwefror 2024 yn unig.

Ffynhonnell: CBS Conwy

**Arddangosyn 4: Achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yng Nghonwy, 2012-13 i 2022-23**




Ffynhonnell StatsCymru

## Atodiad 2 – cwestiynau a meini prawf archwilio

Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiwn cyffredinol '**A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyflawni targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?**'. Wrth ateb y cwestiwn hwn, gwnaethom gymhwyso'r meini prawf canlynol:

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|---|
| A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu a sut y gallai newid dros amser? | A oes dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' (h.y. yr angen presennol/ galw/ perfformiad/costau/ materion i'w datrys) a'r rhesymau pam/achosion sylfaenol? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod o wybodaeth i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid.<br>• Mae'r Cyngor yn meincnodi ei gostau, ei berfformiad a'i brosesau o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei sylfaen dystiolaeth i nodi camau gweithredu sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau, ac yn llywio penderfyniadau sy'n ceisio cydbwyso'r angen i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hwy. |
| | A oes dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio ar berfformiad ailgylchu a'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o hyn (e.e. risgiau a chyfleoedd)? | |
| A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae eisiau ei gyflawni ar gyfer ei berfformiad ailgylchu? | A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried beth y mae tymor hir yn ei olygu yn y cyd-destun hwn ac wedi gosod amserlen briodol (e.e. deng mlynedd, 25 mlynedd neu fwy). Mae wedi ystyried sut y gall camau gweithredu sicrhau'r effaith orau dros yr amserlen honno, wedi nodi mesurau sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a thymor hir, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol.<br>• Mae wedi nodi sut y bydd y cynlluniau'n cael adnoddau dros y tymor hwy cyn belled ag sy'n ymarferol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|---|
| | A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai eu cael, gan gynnwys;<br>• Sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• Sut y bydd cyflawni yn effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• Sut y bydd cyflawni yn effeithio ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried cyfraniad a'r cysylltiadau rhwng llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol/y saith nod llesiant cenedlaethol (gan gynnwys sut y gallai hyn ei helpu i ddarparu manteision ataliol ar draws y system).<br>• Mae staff wedi ceisio integreiddio eu gwaith gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad a sefydliadau partner ac wedi rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, ac maent yn agored ac yn dryloyw gyda'u cydweithwyr a'u partneriaid.<br>• Mae'r Cyngor yn deall yr hyn y mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn berthnasol, ac mae integreiddio yn amlwg mewn strategaethau/dogfennau allweddol, gan gynnwys amcanion/blaenoriaethau cydgysylltiedig a mesurau perfformiad. |
| | Wrth ddatblygu ei gynlluniau, a yw'r Cyngor yn rhoi sylw dyledus i'w ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:<br>• Dyletswyddau cydraddoldeb<br>• Economaidd-gymdeithasol | • Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosibl ei gynlluniau ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac wedi addasu ei gynlluniau os yw'n briodol o ganlyniad.<br>• Mae tystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried a all ei gynlluniau wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef mantais economaidd-gymdeithasol ac mae wedi addasu ei gynlluniau os yw'n briodol o ganlyniad. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|---|
| A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir? | A yw'r Cyngor wedi nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys wrth ddylunio a chyflwyno cynlluniau i gyflawni targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a phwy y mae angen iddo eu cynnwys, ac mae'n chwilio am amrywiaeth lawn o safbwyntiau, gan gynnwys o ffynonellau annhraddodiadol a'r rhai y gallent fod wedi methu eu cyrraedd o'r blaen. |
| | A yw'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth yn effeithiol? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni yn gynnar iawn. Mae wedi meithrin perthnasoedd aeddfed ac ymddiriedaeth, gan rannu gwybodaeth mewn ffordd onest, agored a thryloyw, a darparu adborth ar sut y cafodd eu cyfraniadau eu defnyddio. Mae wedi defnyddio canlyniadau cyfranogiad i lunio cynllunio/cyflawni ac mae'n defnyddio arferion da. |
| | A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor wedi nodi'r partneriaid y mae angen iddo weithio gyda nhw i gyflawni ei weledigaeth a'i amcanion ac mae ganddo ddealltwriaeth glir o sut y gallai weithio gydag eraill a'r heriau allweddol y maent yn eu hwynebu. Mae ffocws ar le a chanlyniadau gwell. |
| | A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol â'r partneriaid cywir? | • Mae gan y Cyngor berthnasoedd aeddfed ac ymddiriedus gyda'i bartneriaid, oherwydd, er enghraifft, mae'n buddsoddi amser a chapasiti mewn gweithio mewn partneriaeth. Mae'n rhannu neu'n cyfuno adnoddau ariannol neu anariannol ac mae wedi datblygu ffyrdd cyffredin o weithio. |
| A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni'r cynlluniau i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol fel y gall gyflawni manteision hirdymor/ataliol? | A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau tymor hir? | • Mae'r Cyngor yn deall manteision buddsoddi mewn dulliau ataliol tymor hir a'r gost (ariannol ac o ran canlyniadau) o beidio â gwneud hynny. Mae wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni canlyniadau a gynlluniwyd dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) a sut y gallai reoli risgiau/cwrdd â'r costau hynny, ac mae'n ceisio lleihau gwastraff/effaith negyddol ar adnoddau drwy gydol y cyflawniad. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|---|
| | A yw'r Cygor yn dyrannu adnoddau i sicrhau gwell canlyniadau dros y tymor hir? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen arno i sicrhau canlyniadau cynaliadwy, tymor hwy a sut y gallai reoli unrhyw risgiau. Mae wedi cymryd camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau gwell a/neu ddefnydd o adnoddau dros y tymor hwy sy'n cael eu hyrwyddo a'u cefnogi. Mae'n ystyried sut y gellir defnyddio cyllid i gefnogi cyflawni amcanion mewn ffordd integredig. |
| | A yw'r Cyngor wedi cynllunio'n glir ac wedi sicrhau adnoddau i gymhwyso rheoliadau ailgylchu annomestig yn ei safle ei hun? | • Gall y Cyngor ddangos dealltwriaeth glir o'r gofynion ailgylchu annomestig ac mae ganddo gynllun i gymhwyso hyn i'w safle ei hun. Mae gan y cynllun hwn amserlen glir, camau gweithredu, ac mae ganddo adnoddau realistig. |
| A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd? | A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a thymor hwy? | • Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a thymor hir, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol. Mae'r mesurau hyn yn adlewyrchu'r gwaith cyflawni canlyniadau sy'n ymwneud â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, asesu costau ariannol a pherfformiad. |
| A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio i gyflawni o'i gymharu â'i dargedau ailgylchu? | A yw'r Cyngor yn ceisio dysgu gwersi o'i berfformiad ei hun i wella ei drefniadau? | • Mae'r Cyngor yn defnyddio perfformiad, cyllideb a gwybodaeth berthnasol arall i wneud gwelliannau i'w drefniadau. |
| | A yw'r Cyngor yn ceisio dysgu gwersi a gwella ei ymagwedd at gyfranogiad? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei weithgarwch cyfranogi ac yn dysgu gwersi (o lwyddiant a methiant) ac yn gwella ei gyfranogiad. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|---|
| | A yw'r Cyngor yn ceisio rhannu ymarfer neu ddysgu gwersi i gefnogi gwelliant yn ei ddull o gydweithio? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol ac yn dysgu gwersi (o lwyddiant a methiant) ac yn gwella'r modd y mae'n cydweithio. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.